Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru - Cofnodion

Dydd Mercher 8 Hydref 2026 09:00-10.00

Cyfarfod Hybrid – swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays ac MS Teams

Yn bresennol

Gweinidogion Llywodraeth Cymru

Siân Gwenllian AS, y Gweinidog Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio (CMLGHP) - Cadeirydd
Elin Jones AS, y Gweinidog Cabinet dros Gyllid (CMF)

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Y Cyng. Lis Burnett (Bro Morgannwg)
Y Cyng. Dimitri Batrouni (Casnewydd)
Y Cyng. Ben Callard (Sir Fynwy)
Y Cyng. Christopher Weaver (Caerdydd)
Y Cyng. Gary Pritchard (Ynys Môn)
Y Cyng. Rob Stewart (Abertawe)
Y Cyng. Mark Pritchard (Wrecsam)
Y Cyng. Simon Knoyle (Castell-nedd Port Talbot)

Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Llywodraeth Leol

Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr, CLlLC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLlLC
Nathan Gardner – Rheolwr Cyllid, CLlLC
Jane Thomas – a151 Cyngor Powys

Swyddogion Llywodraeth Cymru (ac eithrio arsylwyr)

Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Emma Smith – yr Is-adran Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Andrea Melvin – yr Is-adran Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Simon Edwards – Polisi Cyllid Llywodraeth Leol a Chynaliadwyedd
Clare Blake – Llywodraeth Leol a Chynllunio
Luke Nicholas - Cynghorydd Arbennig
Shona O'Shea – Ysgrifennydd Preifat

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP)

Helen Tilley – Cyfarwyddwr Polisi ac Ymarfer
Charlotte Morgan – Cydymaith Ymchwil
Alexander Jones – Cynorthwy-ydd Ymchwil

Ymddiheuriadau

Y Cyng. Anthony Hunt (Arweinydd CLlLC, Torfaen)
Jane Mudd (PCC, Heddlu Gwent)
Darren Garwood – (Prif Swyddog Cyllid, Heddlu Gwent)

Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau

1. Diolchodd y Gweinidog Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio i'r aelodau am fod yn bresennol, a nodwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng. Anthony Hunt a Darren Garwood.

Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod diwethaf

2. Cytunwyd ar y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol heb sylwadau.

Eitem 3: Diweddariad gan CMLGHP

3. Rhoddodd y Gweinidog yr wybodaeth ddiweddaraf am ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â llywodraeth leol, gan gynnwys:

    a. Adnewyddu'r Cytundeb Partneriaeth Strategol (SPA) newydd rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru;

    b. yr adolygiad parhaus o fformiwla gyllido llywodraeth leol gan gyfeirio at adolygiad ar wahân gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) ar yr egwyddorion lefel uwch a'r dosbarthiad a fabwysiadwyd mewn gwledydd neu ardaloedd eraill; a'r

    c. defnydd o ddeddfwriaeth i gefnogi economi wledig ffyniannus, gan gynnwys yr ymgynghoriad parhaus a gynhwysir yn y Papur Gwyn ar Brawfesur Gwledig a Chynaliadwyedd Amgylcheddol.

4. Diolchodd y Gweinidog i arweinwyr awdurdodau lleol ac i CLlLC am eu hymrwymiad parhaus i weithio mewn partneriaeth.

Eitem 4: Diweddariad CMF

5. Soniodd y Gweinidog fod y cyfarfod wedi'i amseru'n dda o gofio bod y gyllideb flynyddol ddrafft i fod i gael ei chyhoeddi ar 17 Tachwedd. Cadarnhaodd y bydd gan y gyllideb broffil refeniw dwy flynedd a phroffil cyfalaf tair blynedd.

6. Dywedodd y Gweinidog fod y gyllideb yn heriol, gyda gostyngiad o 0.7% mewn termau real ar gyfer cyllid refeniw a chadarnhaodd ei bod wedi cyflwyno sylwadau i Ganghellor y DU am adnoddau ychwanegol i gynnal gwasanaethau a diogelu canlyniadau, yn ogystal â galw am gamau pellach i gefnogi aelwydydd sy'n ei chael hi'n anodd.

7. Rhoddodd y Gweinidog yr wybodaeth ddiweddaraf am drethiant lleol, gan gynnwys penderfyniadau diweddar ar gymorth ardrethi i fusnesau ar gyfer busnesau lletygarwch a hamdden. Soniodd y byddai datganiad ar ddiwygio'r dreth gyngor yn cael ei wneud yn ystod yr wythnosau nesaf.

8. Nododd y Gweinidog y byddai angen cymorth arnynt ar draws y Senedd i basio'r gyllideb.

Eitem 5: Rhagolygon Ariannol Llywodraeth Leol CLILC

9. Diolchodd y Cyng. Stewart i'r Gweinidogion am eu diweddariadau ac atgyfnerthodd ymrwymiad llywodraeth leol i weithio mewn partneriaeth. Pwys oedd papur rhagolygon ariannol CLILC yn adlewyrchu'r pwysau ychwanegol a achoswyd gan y sefyllfa costau tanwydd a chadarnhaodd ei fod wedi codi'r mater hwn mewn llythyr at y Prif Weinidog.

10. Cadarnhaodd y Cyng. Stewart ei fod yn cydnabod y sefyllfa anodd o ran y gyllideb ond ei fod yn optimistaidd y byddai symiau canlyniadol cyllideb y DU ar gael a gwnaeth erfyn bod llywodraeth leol yn cael ystyriaeth deg wrth ddosbarthu unrhyw gyllid ychwanegol. Croesawodd y cyhoeddiad am gymorth i ardrethi busnes ar gyfer strydoedd mawr ond roedd eisiau gweld cymorth pellach gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â mynd i'r afael â masnachwyr anghyfreithlon.

11. Tynnodd y cynghorydd sylw hefyd at y risg bosibl a'r ansicrwydd mewn perthynas â gwneud newidiadau i'r dreth gyngor a fformiwla gyllido'r setliad yn yr un flwyddyn.

12. Gofynnodd y Cyng. Mark Pritchard i'r Gweinidog Cyllid ariannu awdurdodau lleol yn briodol; gan dynnu sylw at yr anawsterau o ran cael aelodau etholedig lleol i gefnogi codiadau pellach yn y dreth gyngor. Gofynnodd y cynghorydd hefyd i'r CMF ystyried effaith ariannol newidiadau i ddeddfwriaeth ar lywodraeth leol.

13. Nododd y Cyng. Gary Pritchard mai'r mater yw cyfanswm y cyllid sydd ar gael, nid dim ond sut y mae'n cael ei ddosbarthu. Croesawodd y cynlluniau i ddiweddaru ffynonellau data lle bo'n briodol fel rhan o'r adolygiad o'r fformiwla. Nododd hefyd y byddai setliadau amlflwyddyn yn caniatáu i'r awdurdodau fod yn fwy strategol ac yn caniatáu i gyllid gael ei wario'n fwy effeithiol.

14. Tynnodd y Cynghorydd Weaver sylw at bwysigrwydd ariannu gwaith ataliol. Cododd bryder hefyd am effaith rhewi grantiau sy'n cael eu defnyddio, yn rhannol, i gefnogi cyflogau staff cynyddol. Pe bai gostyngiadau yn cael eu cymhwyso i unrhyw grantiau, byddai'n hanfodol rhoi rhybudd cynnar i gynghorau; ar gyfer unrhyw ddiswyddiadau posibl, byddai angen rhoi rhybudd ym mis Ionawr fan bellaf.

    Cododd y Cynghorydd Batrouni gwestiwn ynglŷn â demograffeg; gan bwysleisio y rhagwelir y bydd gan bob awdurdod lleol ac eithrio Casnewydd ostyngiad yn eu

poblogaeth dan 15 erbyn 2032. Gofynnodd a ellid cynnal trafodaethau yn y dyfodol ar sut i gadw pobl ifanc yng Nghymru.

Cam Gweithredu: *Llywodraeth Cymru i ystyried fforwm a dulliau priodol o gael trafodaeth gyda llywodraeth leol ac o bosibl eraill ar gadw pobl ifanc mewn gwahanol ardaloedd o Gymru.*

Eitem 6 ar yr Agenda WCPP – adolygiad o fethodolegau cyllido – cwmpasu

15. Cyflwynodd WCPP ddogfen gwmpasu ar yr adolygiad arfaethedig o fethodolegau dosbarthu a ddefnyddir mewn mannau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol.

Eitem 8: Unrhyw Fater Arall

16. Tynnodd Judith Cole sylw at y ffaith bod Comisiynydd Plant Cymru wedi darparu canllawiau ar sut i ymgysylltu â phlant a chymryd materion plant i ystyriaeth wrth bennu cyllidebau. Gofynnodd Judith i aelodau'r grŵp ystyried y canllawiau fel rhan o'u proses eu hunain o bennu cyllidebau.

17. Daeth y Gweinidog â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i'r grŵp am eu cyfraniadau.